ELL 3-00(p5)

# Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

## Diben

1. Diben y papur hwn yw:

**Cynnig cyfle i Aelodau'r Pwyllgor nodi'r rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â swyddogaethau disgyblu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

## Cefndir

2. Ym mis Ionawr eleni cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg cyn-16 a'r Prif Ysgrifennydd ar y pryd i gyflwyno rheoliadau a Gorchymyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymdrin â swyddogaethau gweinyddol manwl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Rydym eisoes wedi gwneud rheoliadau a Gorchymyn ar gofrestru athrawon gyda'r Cyngor a chadw gwybodaeth am athrawon nad ydynt ar y rhestr. Ar 21 Tachwedd, cytunodd y Cynulliad ar reoliadau pellach oedd yn ei gwneud yn gyfreithiol orfodol i athrawon sy'n dymuno dysgu mewn ysgol a gynhelir fod ar y gofrestr. Y cam nesaf, felly, yw cyflwyno'r rheoliadau sy'n ymdrin â swyddogaethau'r Cyngor o ran disgyblu gan gynnwys, fel cam olaf, dileu enw athro neu athrawes o'r rhestr.

3. Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig bapur ymgynghori ar y swyddogaethau gweinyddol ym mis Ebrill 1999 ac, ar y cyfan, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellwyd. Gan i'r broses ymgynghori gael ei chynnal cyn sefydlu'r Cynulliad, cafodd y pwyllgor addysg cyn-16 gyfle i drafod y ddeddfwriaeth arfaethedig ar 11 Hydref eleni. Bryd hynny, gofynnodd yr aelodau am gael gweld y rheoliadau ar ffurf drafft, a chytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael gweld y drafft fel papur i'w nodi. Gofynnir i'r Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau i'r Clerc.

## Y Rheoliadau Arfaethedig

4. Mae'r rheoliadau yn cynnig fframwaith i'r Cyngor ar gyfer ystyried achosion athrawon sydd wedi methu â chyrraedd y safonau uchel a ddisgwylir ganddynt fel aelodau o'r proffesiwn dysgu. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r Cyngor sefydlu Pwyllgorau Ymchwilio i ystyried honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol. Os oes achos i'w ateb, bydd y Pwyllgor Ymddygiad neu Bwyllgor Cymhwysedd yn clywed yr achos. Os yw hwnnw'n penderfynu bod athro neu athrawes yn euog o gamymddwyn neu o

anghymhwysedd, gall ddileu ei enw neu ei henw oddi ar y gofrestr neu osod un o nifer o gosbau llai difrifol.

5. Mae’r rheoliadau arfaethedig hyn yn rhoi cymaint o ryddid â phosibl i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gan y byddant yn caniatáu iddo benderfynu drosto’i hun beth yw’r ffordd orau o ymdrin â materion o drefn yn bennaf, o ran aelodaeth a gweithdrefnau’r pwyllgorau disgyblu. Dim ond pan fo Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 neu gyfiawnder naturiol yn mynnu hynny (ee er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i ymddangos o flaen gwrandawiad, yn cael eu cynrychioli yno ac yn cael cyflwyno achos llafar, neu er mwyn sicrhau yr hawl i apelio yn erbyn gorchmynion disgyblu) y mae’r rheoliadau yn gyfarwyddol. Gwelir crynodeb o’r rheoliadau drafft yn Atodiad A ynghyd â’r testun llawn yn Atodiad B.

**Ymgynghori**

6. Esboniwyd pam fod angen y rheoliadau ar gofrestru gorfodol arnom, a chwmpas y rheoliadau, yn ymgynghoriad y Swyddfa Gymreig ar drefniadau gweinyddol y Cyngor dyddiedig mis Ebrill 1999. Yn gyffredinol, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cefnogi’r egwyddorion a amlinellwyd.

Y cam nesaf yw ymgynghori ar destun y rheoliadau, ac rwyf yn cynnig ein bod yn cael cyfnod ymgynghori o 8 wythnos er mwyn sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i ymateb yn llawn.

**Gweithredu**

7. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r rheoliadau drafft, a chynnig unrhyw sylwadau i’r Clerc erbyn 25 Ionawr 2001.

**Ms Jane Davidson**

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Tachwedd 2000

**Man Cyswllt**

Sue Lovell, Pennaeth y Gangen, Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth 2

**<u>CRYNODEB O'R RHEOLIADAU DISGYBLU DRAFFT ATODIAD A</u>**

Mae **Rheoliad 1** yn enwi'r Rheoliadau ac yn rhoi manylion ynghylch cychwyn.

Mae **Rheoliad 2** yn cynnig diffiniadau.

Mae **Rheoliad 3** yn ei gwneud yn orfodol i'r Cyngor sefydlu un Pwyllgor Archwilio neu fwy er mwyn ymchwilio i achosion pan honnir bod athro neu athrawes yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu eu bod wedi eu heuogfarnu o dramgwydd perthnasol. Y pwyllgor(au) fydd hefyd yn penderfynu a oes achos i'w ateb.

Mae **Rheoliad 4** yn caniatáu i'r Pwyllgor(au) Ymchwilio ddirprwyo ei swyddogaethau o ran ymchwilio a phenderfynu ar achosion disgyblu i swyddogion Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Y bwriad yw y bydd hyn yn ymdrin ag achosion dibwys neu blagus fel y gellid ymdrin â hwy heb orfod eu dwyn o flaen y Pwyllgor Ymchwilio eto. Bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu pa achosion neu gategorïau o achosion y gellir eu dirprwyo. Mae Rheoliad 4 hefyd yn nodi bod y gweithdrefnau sy'n gymwys ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn gymwys ar gyfer swyddogion (ee cyhoeddi'r penderfyniad nad oes achosi i'w ateb ar gais yr athro neu'r athrawes).

Mae **Rheoliad 5** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu un Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu

ragor er mwyn penderfynu ar achosion a gyfeirir atynt gan y Pwyllgor(au) Archwilio pan honnir bod athro neu athrawes yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu'u bod wedi'u heuogfarnu o dramgwydd troseddol perthnasol.

Mae **Rheoliad 6** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol, er mwyn penderfynu ar yr achosion a gaiff eu cyfeirio atynt gan y Pwyllgor(au) Archwilio pan honnir bod athro yn euog o anghymhwysedd proffesiynol difrifol.

Mae **Rheoliad 7** yn caniatáu i'r holl bwyllgorau gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiant gan athro neu athrawes i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer (pan y'i cyhoeddir) wrth gymryd unrhyw gamau disgyblu.

Mae **Rheoliad 8** yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau gynnwys o leiaf un aelod lleyg, un athro neu athrawes gofrestredig ac un aelod o'r Cyngor a bod yn rhaid cael o leiaf dri aelod er mwyn cael cworwm. Ni chaniateir i berson a fu'n aelod o'r pwyllgor fu wrthi'n ymchwilio i achos fod yn aelod o'r pwyllgor sy'n penderfynu ar achos. Gall y Cyngor wneud rheolau eraill ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau'r pwyllgorau. Mater i'r Cyngor fydd penderfynu os y caniateir i'r pwyllgorau gyfethol pobl nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor i'w pwyllgorau.

Mae **Rheoliad 9** yn cyfyngu swyddogaethau'r pwyllgorau i ystyried achosion o gamymddwyn a gyfeirir atynt gan DfEE ac achosion o aghymhwysedd a gyfeirir atynt gyflogwyr.

Mae **Rheoliad 10** yn nodi'r gweithdrefnau y dylai'r Pwyllgor(au) Ymchwilio eu dilyn os ydynt yn penderfynu cynnal ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r athro neu'r athrawes am yr honiadau sy'n eu herbyn a rhoi'r cyfle iddynt gyflwyno tystiolaeth. Mater i'r Pwyllgor Archwilio fydd penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad i achos ac mae ganddo'r hawl i ollwng achos ar unrhyw adeg. Os yw'n dyfarnu bod achos heb ei brofi rhaid iddo, ar gais yr athro neu'r athrawes, gyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw. Caniateir i'r Cyngor lunio gweithdrefnau ychwanegol os yw'n credu eu bod yn angenrheidiol.

Mae **Rheoliad 11** yn nodi'r gweithdrefnau y dylai'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd eu dilyn wrth wrando achosion ac wrth benderfynu arnynt neu wrth benderfynu ar achos heb wrandawiad. Caniateir i'r pwyllgor ollwng achos ar unrhyw adeg. Os yw'n dyfarnu bod achos heb ei brofi rhaid iddo, ar gais yr athro neu'r athrawes, gyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw. Caniateir i'r pwyllgor wneud gorchymyn disgyblu os yw'n dyfarnu bod athro neu athrawes yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol.

Mae **Rheoliad 12** yn caniatáu i athrawon y mae achos yn cael ei gymryd yn eu herbyn fod yn bresennol a chyflwyno sylwadau llafar a/neu gael eu cynrychioli gan unrhyw un a ddymunant.

Mae **Rheoliad 13** yn caniatáu i'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd alw tystion i wrandawiadau a'u gorfodi i roi tystiolaeth a chyflwyno dogfennau neu unrhyw ddeunyddiau eraill sydd yn eu meddiant.

Mae **Rheoliad 14** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd gyhoeddi eu dyfarniad ar ganlyniad gwrandawiad yn gyhoeddus. Mae hefyd yn nodi y dylid cynnal

gwrandawiadau yn gyhoeddus oni bai bod yn rhaid gwahardd y cyhoedd er lles cyfiawnder; bod yr athro neu'r athrawes yn gwneud cais i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat (ac nad yw hyn yn groes i les y cyhoedd); pan fo'n angenrheidiol er mwn diogelu lles plant; neu pan fo'r pwyllgor yn ystyried ei bod yn angenrheidiol trafod yn breifat.

Mae **Rheoliad 15** yn caniatáu i bwyllgor orfodi tystion i dyngu llwon neu gadarnhau.

Mae **Rheoliad 16** yn caniatáu i'r Cyngor lunio rheolau eraill ynghylch y gweithdrefnau y dylai'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd eu dilyn.

Mae **Rheoliad 17** yn caniatáu i'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd gyfeirio achosion at ei gilydd neu yn ôl at y Pwyllgor Ymchwilio.

Mae **Rheoliad 18** yn ei gwneud yn ofynnol i orchmynion disgyblu gofnodi penderfyniad y pwyllgor, ac mae'n nodi pa wybodaeth y dylid ei gynnwys yn y gwahanol fathau o orchmynion. Mae hefyd yn nodi y dylid anfon y gorchymyn at unrhyw gyflogwr perthnasol ac i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae **Rheoliad 19** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth ynghylch gorchmynion disgyblu ar ei wefan. Dylai'r wybodaeth gynnwys enw'r athro neu'r athrawes, y math o orchymyn, y dyddiad y daeth i rym a natur yr euogfarniad neu'r ymddygiad a arweiniodd at gyhoeddi'r gorchymyn.

Mae **Rheoliad 20** yn caniatáu i athro neu athrawes y gwnaed gorchymyn cofrestru amodol yn ei (h) erbyn wneud cais i'r Pwyllgorau Ymddygiad neu'r Pwyllgorau Cymhwysedd i newid neu ddiddymu'r amodau. Dylai'r cais fod ar ffurf ysgrifenedig a dylai gynnwys yr holl ddogfennau y dibynnwyd arnynt er mwyn ategu'r achos a bydd y cais yn cael ei ystyried gan Bwyllgor gwahanol i'r un a fu'n ystyried yr achos yn y lle cyntaf.

Mae **Rheoliad 21** yn caniatáu i'r Pwyllgorau Ymddygiad a'r Pwyllgorau Cymhwysedd wneud gorchymyn gwahardd neu orchymyn atal yn erbyn athro sydd wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o amodau gorchymyn cofrestru amodol.

Mae **Rheoliad 22** yn caniatáu i berson y gwnaed gorchymyn gwahardd yn ei erbyn wneud cais i'r Cyngor i gael ei ail-gofrestru ar ôl dwy flynedd. Bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried gan bwyllgor gwahanol i'r un a fu'n ystyried yr achos yn y lle cyntaf.

Mae **Rheoliad 23** yn caniatáu i'r Pwyllgorau adolygu gorchmynion mewn achosion ble y dilëwyd yr euogfarniad y seiliwyd y gorchymyn arno mewn Llys neu ble y byddai tystiolaeth nad ystyriwyd mohoni ar y pryd wedi gwneud iddynt newid eu penderfyniad.

Mae **Rheoliad 24** yn rhoi'r hawl i unrhyw berson a dramgwyddir gan orchymyn disgyblu apelio i'r Uchel Lys o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r gorchymyn.

Mae **Rheoliad 25** yn golygu bod y gorchmynion disgyblu a wneir gan y Cyngor yn Lloegr yn gymwys i Gymru, fel yn Lloegr.

Mae **Rheoliad 26** yn gosod allan y trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill i athrawon sy'n wynebu gweithdrefnau disgyblu. Nodir y gellir eu hanfon atynt yn bersonol, drwy'r post neu drwy'r post electronig, a nodir diffiniad o'r hyn yw cyflwyno gorchymyn. Efallai y bydd yn rhaid inni adolygu'r cyfeiriadau at orchmynion a anfonir drwy'r post er mwyn cydymffurfio ag amodau'r Ddeddf Gwasanaethau Post ddiweddar a byddwn yn ymchwilio i hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae **Rheoliad 27** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei reolau am y gweithdrefnau a dogfennau eraill ar ei wefan ac mewn unrhyw ddull arall fel y gwêl yn dda. Hefyd, os yw'r Pwyllgorau Ymchwilio, y Pwyllgorau Ymddygiad neu'r Pwyllgorau Cymhwysedd yn cyhoeddi eu penderfyniad nad oes gan athro neu athrawes achos i'w ateb rhaid cyhoeddi hyn ar Wefan y Cyngor ac mewn unrhyw ddull arall fel y gwêl yn dda.

Mae **Rheoliad 28** yn ei gwneud yn ofynnol, mewn achosion lle bo cyflogwyr athrawon yn eu diswyddo ar sail anghymhwysedd neu lle y byddent wedi, neu y gallent fod wedi, eu diswyddo pe na byddent wedi ymddiswyddo, i'r cyflogwr roi'r holl dystiolaeth ddogfennol berthnasol a arweiniodd at y diswyddiad i'r Cyngor, fel ag a nodir yn y rheoliadau.

Mae **Atodlen 1** yn rhestru'r holl wybodaeth y dylai'r cyflogwyr ei roi i'r cyngor o ganlyniad i reoliad 28. Mae'r wybodaeth yn debyg i'r hyn y mae'r Cynulliad yn gofyn amdano gan gyflogwyr pan fyddant yn diswyddo rhywun ar sail camymddwyn.